*Clerc/Clerk: Rhianwen Sheldon*
*Cyfeiriad/Address: 27 Alltwen, Llysafen, Colwyn Bay, Conwy, LL29 8PG*
Ffon/Tel: 07786253828
Ebost/Email: valleycommunitycouncil@gmail.com
Safle We: http://www.cyngor-cymuned-fali.cymru
Website: http://www.valley-community-council.wales

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Y Fali a gynhaliwyd nos Fercher, 17eg Mai 2023 am 7 o'r gloch yn *Ysgol Gymuned y Fali***

***Minutes of the Valley Community Council Meeting held on Wednesday, 17th May 2023 at 7pm at Valley Community School***

**Presennol**
Cyng N Tuck (Cadeirydd), Cyng H Williams, Cyng M Swaine Williams, Cyng G Browne MBE, Cyng W Rogerson MBE, Cyng A Walker, Cyng D Jones, Cyng K Taylor (hefyd yn Cynghorydd Sir), Cyng S Williams, Cyng C Thornhill, Cyng G Smith.

**Present**
Cllr *N Tuck (Chairman), Cllr H Williams,* Cllr M Swaine Williams, *Cllr G Browne MBE,* Cllr W Rogerson MBE*, Cllr* A Walker, Cllr *D Jones, Cllr K Taylor (also a County Councillor),* Cllr S Williams, *Cllr C Thornhill, Cllr G Smith.*

**Hefyd yn bresennol**:
Cynghorydd Sir G Jones, R Sheldon, Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol a H Hughes, Cyfieithydd.

**Also present**:
*County Councillor G Jones,* R Sheldon, Clerk/ Responsible Finance Officer and H Hughes, Translator

| | | |
|---|---|---|
| 29/2324 | **Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod busnes y Cyngor Cymuned yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol. | **Chair's Opening Remarks**<br>The Chairman welcomed everyone to the Community Council business meeting followngthe Annual meeting. |
| 30/2324 | **Derbyn ymddiheuriadau**<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:<br>Cyng I Jones. Ceisiodd y Cyng D Hughes ymuno yn rhithiol fodd bynnag nad oedd y linc Zoom mewn lle ar gyfer y cyfarfod. | **To accept apologies**<br>Apologies were accepted from:<br>Cllr I Jones. Cllr D Hughes attempted to join the meeting via Zoom however the link was not available for the meeting. |
| 31/2324 | **Derbyn Datgan Buddiant Personol a Rhagfarnol.**<br>Datganwyd ddiddordeb gan Cyng K Taylor ar faterion cynllunio gan ei fod yn aelod o Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir.<br>Datganwyd ddiddordeb gan Cyng D Jones ar eitem 40/2324 (1). | **To receive Declaration of interest Personal and Prejudicial Interest**<br>Cllr K Taylor declared an interest on Planning matters as he is a member of the County Council Planning Committee.<br>Cllr D Jones declared an interest in item 40/2324 (1). |
| 32/2324 | **Caniatau i'r cyhoedd siared ar unrhyw eitem ar yr agenda neu ofyn cwestiynau (5 munud).**<br>Dim aelod o'r choedd yn bresennol. | **To allow the public to speak on any item on the agenda or ask questions (5 mins),**<br>No members of the public present. |
| 33/2324 | **Cadarnhau cofnodion cyfarfod 19.04.23**<br>**Penderfynwyd:** Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod. **Cynnig/Eilio** | **To confirm minutes of meeting 19.04.23**<br>**Resolution:** The minutes were accepted as a true account of the meeting. **Proposed/Seconded** |

| | | |
|---|---|---|
| | GB/GS | GB/GS |
| 34/2324 | **Trafod materion yn codi o'r cofnodion.**<br>Dim materion yn codi. | **To discuss matters arising from the minutes**<br>There were no matters arising. |
| 35/2324 | **Derbyn Cofnodion Pwyllgor Ynys Wen 04.05.23 a'i argymhellion**<br>**Argymhelliad 1:** Ychwanegu 'cyflwr maes y fynwent' at yr Asesiad Risg ac i ofyn am gyngor gan yr Awdurdod Lleol ar gynigion draenio tir posib a'r parhad i ddefnyddio'r ardal gladdu yn ddiogel.<br>**Penderfynwyd:** Cytuno â'r argymhelliad. Pawb yn gytun. **Cynnig/Eilio** KT/SW<br>**Argymhelliad 2:** Bod ffioedd claddu i aros yr un fath ar gyfer 2023/24.<br>**Penderfynwyd:** Cytuno â'r argymhelliad. Pawb yn gytun. **Cynnig/Eilio** HW/GS | **To receive the Minutes of the Ynys Wen Committee 04.05.23 and its recommendations**<br>**Recommendation 1:** To add 'the condition of the cemetery field' to the Risk Assessment and to seek advice from the Local Authority on potential drainage solutions and continued safe use of the burial area.<br>**Resolution**: Agree recommendation. All agreed.<br>**Proposed/Seconded** KT/SW.<br>**Recommendation 2**: That burial fees to remain the same.<br>**Resolution**: Agree Recommendation. All agreed.<br>**Proposed/Seconded** HW/GS |
| 36/2324 | **Adrodd ar Faterion Ariannol:**<br>1. Sefyllfa Ariannol Cyfredol<br>2. Adroddiad Archwilwr Mewnol<br>3. Cymeradwyo cyfrifon 2022/23 a dychweliad blynyddol | **To report on financial matters:**<br>1. Current financial position<br>2. Internal Auditor's Report<br>3. Approve 2022/23 accounts and annual return |
| | **1. Sefyllfa Ariannol Cyfredol**<br>Manylion Cyfrifon Balance ar 26.04.23 | 2. **Current Financial Position**.<br>Details of Accounts Balances at 26.04.23 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Trysorydd | £17,615.57 | Treasurer | £17,615.57 |
| Rheoli Busnes | £15,944.03 | Business Manager | £15,944.03 |
| Ynys Wen | £27,231.09 | Ynys Wen | £27,231.09 |
| Cyfalaf | £2,088.13 | Capital | £2,088.13 |
| | £62,911.82 | Total | £62,911.82 |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfrif Trysorydd – arian ar gael £17,615.57) | (Treasurer account – funds available £17,615.57) |
| | Derbynnwyd fel yn gywir yn unol a phwynt 3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor cymuned y Fali.<br>**Cynnig/Eil** WR/GB | Accepted as correct in accordance with Section 3 of the Valley Community Council Financial Regulations.<br>**Prop/Sec** WR/GB |
| 37/2324 | **Cymeradwyo Taliadau fel a ganlyn:**<br>**Taliadau ar-lein:** | **To Approve payments as follows:** |
| | Cyflog Clerc Mai £414.03 | Clerk's Salary May £414.03 |
| | HMRC PAYE Mai £276.00 | HMRC PAYE May £276.00 |
| | Costau Gweinyddol Ebrill a Mai £49.70 | Admin costs April & May £49.70 |
| | Tal Aelodath SLCC £134 o 1/5/2023 | SLCC Membership £134 from 1/5/2023 |
| | Norton Anti-Virus Protection £99.99 | Norton Anti-Virus Protection £99.99 |
| | **Taliadau Uniongyrchol or Banc:** | **Direct Debit Payments from the Bank:** |

| Cwmni / Company | Mis/Month | Cyflenwad/Supply | Parc Mwd (£) | Cloc/Clock (£) | Ynys Wen (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Scottish Power | Ebrill/April | Trydan Electric | £173.86 | £44.31 | |
| CSYM IOACC | | Treth Cyngor Council Tax | 0 | | |
| British Telecom | | Ffôn | 0 | | |
| Dwr Cymru | Mawrth/ March | Dwr Water | £77.71 | | |

Signed:
Chairman

Date: 21.06.2023

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Veolia | Mawrth/<br>March | Biniau/Bins Maes Chwarae/Play area | £20.05 | | |
| | PWLB | | Benthyciad/<br>Loan | 0 | | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:** Derbyn y taliadau fel rhai cywir ac fe'u hawdurdodwyd yn unol ag Adran 3 o Reoliadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali.<br>**Cynnig/Eil** WR/GB | **Resolved:** Payments were accepted as correct and were approved in line with Section 3 of the Valley Community Council Financial Regulations.<br>**Proposed/Seconded** WR/GB |
| | **2. Adroddiad Archwilwr Mewnol**<br>**3. Cymeradwyo cyfrifon 2022/23 a dychweliad blynyddol**<br>Adroddodd y Clerc nad oedd adroddiad yr Archwilydd Mewnol wedi'i dderbyn eto i alluogi'r arwyddo terfynol o'r cyfrifon. Felly, bydd yr arwyddo terfynol yn cael ei wneud yn y cyfarfod nesaf. Rhoddodd y Clerc drosolwg o alldro 2022/23 a ddangosodd amrywiant cyffredinol o 5.4% yn fwy na'r gyllideb a bennwyd o £43,435. | **4. Internal Auditor's Report**<br>**5. Approve 2022/23 accounts and annual return**<br>The Clerk reported that the Internal Auditor's report had not yet been received to enable the final sign off the accounts. Therefore, final signoff will be made at the next meeting. The Clerk gave an overview of the 2022/23 outturn which showed an overall variance of 5.4% more than the set budget of £43,435. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Balans ar 01.04.23 | £45,430 | Balance at 1.4.23 | £45,430 |
| | Derbyniadau | £49,188 | Receipts | £49,188 |
| | Taliadau | £45,779 | Payments | £45,779 |
| | Gweddill ar 31.03.23 | £48,839 | Balance remaining at 31.03.23 | £48,839 |

| | | |
|---|---|---|
| 38/2324 | **Trafod Materion Plwyfol** | **To discuss Parochial Matters** |
| | 1. <u>Penderfynu dyddiad cyfarfod y Pwyllgor Parciau</u><br>Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7yh 245/2023 ym Mharc Mwd.<br>Nodwyd y costau cynyddol i gynnal Parc Mwd a'r angen i adolygu ffioedd.<br>**Penderfyniad**: Y Clerc i gyflwyno ffigyrau I gyfarfod nesaf y Pwyllgor Parciau. | 1. <u>Determine date of Parks Committee meeting</u><br>The next meeting to be held at 7pm 24/5/2023 at Parc Mwd.<br>The escalating cost to maintain Parc Mwd was noted and the need to review charges.<br>**Resolution**: The Clerk to present costings to the next Parks committee meeting. |
| | 2. <u>Clwyd Alyn – Datblygiad Newydd Buddiant Cymunedol</u><br>Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn e-bost gan y datblygwr safle'r Felin Y Fali yn gofyn am ddeialog ynghylch yr ardal chwarae yn y datblygiad newydd yn y Fali.<br>**Penderfynwyd**: Cynigiwyd a chytunwyd y dylai'r Gymdeithas Tai sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gwblhau yn unol ag amodau'r caniatâd cynllunio ac y byddai'r Cyng. K Taylor a G Jones yn cyfarfod â'r datblygwr ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor cymuned.<br>Y Clerc i e-bostio'r datblygwr a sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar gael i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. **Cynnig/Eilio** GB/GS | 2. <u>Clwyd Alyn – New Development Community Benefits</u><br>The Chair reported that he had received an email from the developer of the Valley Mill site requesting a dialogue regarding the play area at the new development in Valley.<br>**Resolved:** It was proposed and agreed that the Housing Association should ensure that the development was completed in line with the conditions of the planning permission and that Cllrs K Taylor and G Jones would meet with the developer and report back to the community Council.<br>The Clerk to email the developer and ensure all information available to the Councillors before the meeting. **Proposed/Seconded** GB/GS |
| | 3. <u>Gorchymyn Terfyn Cyflymder 30mya - Bro'r Llynnoedd -</u> (A5 CAERGEILIOG A B4545 - PONTRHYDYBONT) (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) 202- Dyddiad cau 2.6.23<br>**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad i'r | 3. <u>Speed Limit Order mph - Bro'r Llynnoedd</u> - (A5 CAERGEILIOG AND B4545 – FOUR MILE BRIDGE) (30MPH SPEED LIMIT) ORDER 202- Closing date 2.6.23<br><br>**Resolved:** No objection to the proposal. All agreed |

| | | |
|---|---|---|
| | cynnig. Pawb yn gytûn. | |
| | 4. Llwybr troed rhwng y maes parcio a'r siopau - ymholiad perchnogaeth<br>Derbyniwyd ymholiad gan y Cyngor Sir ynglŷn â perchnogaeth y llwybr rhwng y maes parcio ar safle siopau y Fali. Gwnaethpwyd sylw fod cyflwr y llwybr yn berygl gyda briciau wedi codi.Awgrymwyd y dylai'r Cyngor Sir dderbyn cyfrifolfoldeb yn ddiofyn ganmae'n debyg mai'r Cyngor â adeiladodd y llwybr. Y Clerk i ymateb i'r Cyngor Sir gyda'r sylwadau a lluniau o gyflwr y llwybr. | 4. Footpath between car park & shops – ownership query<br>An enquiry was received from the County Council regarding the ownership of the path between the car park on the Valley shops site. It was commented that the condition of the path was a hazard with raised bricks. It has been suggested that the County Council should accept responsibility by default as it was probably the Council that built the path. The Clerk to respond to the County Council with the comments and supply photos showing the condition of the path. |
| | 5. Problemau traffig ger y Siopau Y Fali<br>Derbyniwyd ymholiad ynghylch y materion traffig ar Ffordd yr Orsaf gan y siopau. Deallwyd bod y Cyngor Sir yn dal i edrych ar atebion i'r materion a godwyd. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad at y Cyngor Sir. | 5. Traffic Issues by the Shops Valley<br>A query was received regarding the traffic issues on Station Road by the shops. It was understood that the County Council as still looking at solutions to address the issues raised. Any enquiries to be directed to the County Council. |
| 39/2324 | **CynllunioDeddf Gynllunio Gwlad a Thref** | **To Consult on Planning Applications & Decisions** |
| | **Ymgynghoriad Ceisiadau Cynllunio**<br>1. HHP/2023/95: Cais llawn ar gyfer dymchwel, addasu ac ehangu yn Limosa, Parc Branwen, Y Fali / Valley.<br>**Penderfynwyd:** Dim gwrhwynebiad na sylwadau.<br>**Cynnig/Eilio** Pawb yn gytûn. | **Applications for Consultation**<br>1. HHP/2023/95 - Full application for demolition, alterations and extensions at Limosa, Parc Branwen, Y Fali / Valley.<br>**Resolved:** No objections or comments.<br>**Proposed/Seconded** – All agreed WR/MSW |
| | **Penderfyniadau:**<br>Dim i'w drafod | **Decisions:**<br>None to discuss. |
| 40/2324 | **Ceisiadau am Roddion**<br>1. Clwb Peldroed Iau Y Fali<br>**Penderfynwyd:** Cytunwyd rhodd o £50 I Glwb Peldroed Y Fali. **Cynnig/Eilio** GB/WR<br>2. SSAFA<br>**Penderfynwyd:** Cytunwyd rhodd o £50 I SSAFA. **Cynnig/Eilio** WR/CT | **Donation Applications**<br>1. Valley Juniors Football Club<br>**Resolved:** To donate £50 to Valley Juniors Football club. **Proposed/Seconded** GB/WR<br>2. SSAFA<br>**Resolved:** To donate £50 to SSAFA.<br>**Proposed/Seconded** WR/CT |
| 41/2324 | **Taith i Saith**<br>Trafodwyd gwaith y swyddogion ymgysylltu newydd h.y. datblygu gwpiau/ gweithgareddau/ prosiectau cymunedol yn dibynnu ar angen y gymuned yn canolbwyntio'n bennaf ar y Blynyddoedd Cynnar (0 – 7).<br>**Penderfyniad:** Cytunwyd i wahodd y swyddogion ymgysylltu i gyflwyno i aelodau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor | **Taith i Saith**<br>The work of the new engagement officers was discussed i.e., to develop community groups/activities/projects depending on the need of the community primarily focusing on the Early Years (0 – 7).<br>**Resolution:** It was agreed to invite the engagement officers to present to members at the next Council Meeting |
| 42/2324 | **Gohebiaeth (wedi cylchredeg)**<br>Ynys Mon:<br>1. Ymgynghoriad-a-rhanddeiliaid AHNE. Cynllun Rheoli AHNE 2023-2028: Dyddiad cau 9.6.23 **Nodwyd**<br>2. Ymgynhoriad Cynllun Rheoli Cyrchfan 2023-2028 Dyddiad cau 9.6.23 **Nodwyd**<br>3. Ymgynghoriadau Strategaeth-Moderneiddio- | **Correspondence (Circulated):**<br>Ynys Mon:<br>1. AONB Stakeholder-consultation. AONB Management Plan 2023 – 2028 - Closing date 9.6.23 **Noted**<br>2. Destination Management Plan 2023-2028 Consultation Closing date 9.6.23 **Noted**<br>3. Modernising-Learning-Communities-and-Developing-the-Welsh-Language-Strategy-consultation Closing date |

Signed:
Chairman

Date: 21.06.2023

| | | |
|---|---|---|
| | [Cymunedau-Dysgu-a-Datblygur-Gymraeg-ymgynghoriad](Cymunedau-Dysgu-a-Datblygur-Gymraeg-ymgynghoriad) Dyddiad cau 18.5.23 **Nodwyd.** Amlygwyd pwysigrwydd yr ymgynghoriad ac anogir pob aelod i gyfleu eu pwyntiau i'r Awdurdod Lleol.<br>ULLC:<br>**4.** Pwyllgor Ardal Ynys Môn o Un Llais Cymru yn cael ei ohirio o ddydd Iau 27 Ebrill tan ddydd Iau 25 Mai. **Nodwyd**<br>**5.** Cynhadledd Arfer Arloesol ar Faes y Sioe Amaethyddol ar ddydd Mercher 5ed Gorffennaf. **Nodwyd.**<br>Arall:<br>**6.** Menter Môn: Menter Mon Morlais Limited - Bwi monitro amgylcheddol **Nodwyd.**<br>7. Menter Môn Morlais – Newyddlen y Gwanwyn 2023. **Nodwyd**.<br>**8.** Cyfeillion Lon Las – Gorymdaith 13.5.23 "Yr achos dros lwybr Aml-ddefnyddiwr - Lôn Las Môn". **Nodwyd** | 18.5.23 **Noted.** The importance of the consultation was highlighted and all members urged to put their points across to the Local Authority**.**<br><br>OVW<br>**4.** Ynys Môn Area Committee of One Voice Wales will be deferred from Thursday 27th April till Thursday 25th May. **Noted**<br>**5.** Innovative Practice Conference at the Royal Welsh Showground on Wednesday 5th July. **Noted**<br><br>Other:<br>6. Menter Môn: Menter Môn Morlais Limited - Environmental monitoring buoy. **Noted**<br>7. Menter Môn Morlais Ltd - Newsletter Spring 2023. **Noted**<br>8. The Friends of Lon Las – Procession 13.5.23 and case for multi use path - Lon Las Môn. **Noted** |
| 43/2324 | **Derbyn adborth gan**:<br>• Bwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol<br>Adroddodd y Cynghorydd H Williams fod yr ysgol wedi dioddef llawer iawn o ddifrod yn dilyn llifogydd diweddar. Bydd y gwaith atgyweirio yn cael ei gwblhau yn ystod yr haf, yn ogystal â rhywfaint o ymchwiliad i achos y llifogydd.<br>Mae Adran Addysg yr Awdurdod Lleol yn edrych i mewn i ddarparu 'Caban' ar y safle gyda'r bwriad o ddarparu gofal plant drwy'r dydd. Mae potensial y prosiect yn cael ei archwilio ynghyd â chyllid grant gan Lywodraeth Cymru.<br>Mae presenoldeb plant yn yr ysgol wedi cynyddu.<br>Roedd yr ysgol hefyd yn falch o adrodd am y gwaith roedd plant wedi'i wneud i hyrwyddo busnesau yn y pentref drwy greu hysbysebion teledu digidol. Roedd busnesau wedi mwynhau'r rhyngweithio gyda'r plant.<br>Roedd y plant hefyd wedi dysgu am yr ymfudwyr Cymreig i Batagonia drwy'r llong Mimosa yn 1865 trwy olygfeydd a draddodwyd gan actorion yn yr ysgol.<br>• Cynghrair Bro Llynnoedd<br>Adroddodd y Cadeirydd fod y Gynghrair wedi cynnal sesiynau i ddarparu Mannau Cynnes i helpu aelodau o'r gymuned. Yn anffodus, nid oedd galw am y gefnogaeth.<br>Mae'r Gynghrair wedi dyfarnu grantiau bach o £1.250 i bedwar grŵp cymunedol, h.y. Grŵp Cymuned y Cwm, Cylch Meithrin | **To receive feedback from**:<br>• School Governing Board<br>Cllr H Williams reported that the school suffered a great deal of damage following recent floods. Repairs will be completed his summer, plus some investigation into the cause of the flooding.<br><br>The Local Authority's Education Department are looking into providing a 'Caban' on site with a view to provide all day child care. The potential of the project is being explored along with grant funding from Welsh Government.<br><br>The child attendance at school has increased.<br><br>The school was also proud to report of the work children had done to promote businesses in the village by creating digital TV adverts. Businesses enjoyed the interaction with the children.<br><br>The children had also learned of the Welsh emigrants to Patagonia via the ship Mimosa in 1865 through scenes delivered by Welsh actors at the school.<br><br>• Bro'r Llynnoedd Alliance<br>The Chair reported that the Alliance held to sessions to provide Warm Spaces to help members of the community. Unfortunately, there was no uptake for the support.<br>The Alliance has awarded small grants of £1.250 to four Community Groups i.e. Valley Community |

| | | |
|---|---|---|
| | Babanod y Tywyn, Valley Juniors ac Ardal Weinidogaeth Bro Cwyfan. | Group, Cylch Meithrin Babanod y Tywyn, Valley Juniors and Bro Cwyfan Ministry Area. |
| 44/2324 | **Hyfforddiant**<br>Cafodd dyddiadau hyfforddi Un Llais Cymru ar gyfer Mai 2023 eu dosbarthu. Mae bwrsariaeth ar gael. Aelodau i e-bostio'r Clerc i archebu unrhyw gyrsiau.. | **Training**<br>One Voice Wales training dates for May 2023 were circulated. A bursary is available. Members to email the Clerk to book any courses. |
| 45/2324 | **Eitemau i raglen y cyfarfod nesaf**<br>Dim awgrym wedi ei dderbyn . | **Items for the agenda of the next meeting**<br>No suggestion received. |
| 46/2324 | **Dyddiad Cyfarfod Nesaf:**<br>Ysgol Gymuned y Fali ac ar Zoom<br>21.06.23 am 7.00 yh | **Date of Next Meeting:**<br>Valley Community School and on Zoom.<br>21.06.23 at 7.00 pm. |
| | Daeth y cyfarfod i ben am 8.36yh | The meeting ended at 8.36pm |

Signed:
Chairman

Date: 21.06.2023